



The Planning Inspectorate  
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Tystiolaeth Arbenigol





## Tystiolaeth arbenigol

### 1. Pwy sy'n darparu tystiolaeth arbenigol?

1.1 Tystiolaeth arbenigol yw tystiolaeth a roddir gan unigolyn sy'n gymwysedig, trwy hyfforddiant a phrofiad mewn pwnc neu bynciau penodol, i fynegi barn. Dyletswydd arbenigwr yw helpu Arolygydd gyda materion sydd o fewn ei arbenigedd. Mae'r ddyletswydd hon yn drech nag unrhyw rwymedigaeth i'r unigolyn y mae'r arbenigwr wedi derbyn cyfarwyddiadau ganddo neu'n cael ei dalu ganddo.

1.2 Dylai'r dystiolaeth fod yn gywir, yn gryno ac yn gyflawn o ran ffaith berthnasol/ffeithiau perthnasol o fewn gwybodaeth yr arbenigwr, a dylai gynrychioli ei farn onest a gwrthrychol. Os yw corff proffesiynol wedi mabwysiadu cod ymarfer ar ymddygiad proffesiynol sy'n ymdrin â rhoi tystiolaeth, disgwylir i aelod o'r corff hwnnw gydymffurfio â darpariaethau'r cod wrth baratoi a chyflwyno'r dystiolaeth arbenigol (yn ysgrifenedig neu'n bersonol).

### 2. Ardystio

2.1 Dylai tystiolaeth arbenigol gynnwys ardystiad fel hwnnw a roddir isod neu rywbeth tebyg (fel sy'n ofynnol gan gorff proffesiynol penodol). Trwy wneud hynny, bydd yr Arolygydd ac eraill sy'n ymwneud ag apêl neu gais a alwyd i mewn yn gwybod bod y deunydd mewn Datganiad Ysgrifenedig o Dystiolaeth, datganiad ysgrifenedig neu adroddiad yn cael ei ddarparu fel 'tystiolaeth arbenigol'. Dyma enghraifft o ardystiad priodol:

*"Mae'r dystiolaeth yr wyf wedi'i pharatoi ac yn ei darparu ar gyfer yr apêl hon, cyfeirnod APP/xxx, (yn y Datganiad Ysgrifenedig o Dystiolaeth hwn, y datganiad ysgrifenedig hwn neu'r adroddiad hwn) yn wir ac wedi cael ei pharatoi ac yn cael ei rhoi yn unol â chanllawiau fy sefydliad proffesiynol, a chadarnhaf mai'r safbwyntiau a fynegir yw fy ngwir safbwyntiau proffesiynol".*

2.2 Nid yw rhoi tystiolaeth arbenigol yn atal arbenigwr rhag gweithredu fel eiriolwr, ar yr amod bod yr hyn sy'n cael ei roi fel tystiolaeth arbenigol a'r hyn nad yw'n dystiolaeth arbenigol yn cael ei gadarnhau trwy'r ardystiad neu fel arall.